



# CARTREFI HYGYRCH

## Canllaw i landlordiaid ac asiantau'r sector preifat

# Diogelu eich Sylfaen Tenantiaid ar gyfer y Dyfodol: Gosod i Denantiaid Hŷn ac Anabl

CYHOEDDWYD GORFFENNAF 2025



# CARTREFI HYGYRCH: CANLLAW I CHI A'CH TENANTIAID

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r gwasanaethau sydd ar gael ar gyfer darparu cartrefi hygyrch yn y Sector Rhentu Preifat yng Nghymru.

Gall gwneud newidiadau i eiddo ymddangos fel proses gymhleth a chostus ond mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o addasiadau yn fach, yn syml ac yn hawdd eu gosod. Ar ben hynny, mae llawer o lwybrau cymorth ar gael i landlordiaid yn y sector preifat.

**Mae'r cymorth hwn yn bwysig, oherwydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan landlordiaid ac asiantau ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol i denantiaid sy'n anabl, er mwyn caniatáu iddynt fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn yr eiddo.**

Bydd y canllaw hwn yn dangos i chi:

- Lle gallwch chi a'ch tenant gael mynediad at gymorth ariannol i wneud addasiadau tai mwy yn ogystal ag addasiadau llai.
- Lle gallwch chi a'ch tenant ddod o hyd i wasanaethau eiriolaeth a gwybodaeth i gefnogi eich taith tuag at gartref hygyrch.
- Lle gallwch chi a'ch tenant gael mynediad at gymorth ar gyfer iechyd meddwl, niwroamrywiaeth ac anghenion dysgu, yn ogystal ag anghenion corfforol.
- Manylion cyswllt a gwybodaeth cyfeirio ymlaen ar gyfer amrywiol sefydliadau cymorth sy'n gweithio ledled Cymru i hyrwyddo tai hygyrch a diogel i denantiaid hŷn ac anabl.







## CYMORTH ARIANNOL

Ar y dudalen hon fe welwch opsiynau cymorth ariannol ar gyfer gwneud addasiadau i eiddo.

### Awdurdodau Lleol: Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)

Bwriad cynllun y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yw ariannu addasiadau i gartrefi pobl, i'w helpu i fyw'n annibynnol. Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb statudol i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl os yw person yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.
Bwriad Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yw talu rhywfaint neu'r cyfan o gost wirioneddol addasiadau. Nid oes swm penodol sy'n berthnasol i bawb; dyfernir grantiau fesul achos.
Mae Grantiau Gorfodol (yn gyffredinol) yn isafswm o £1000, ac yn uchafswm o £36,000.

### Cymhwysedd ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Er mwyn cael grant, rhaid i denant (neu ei blentyn):

• Fod ag anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, neu anghenion ychwanegol sy'n gysylltiedig ag oedran.

• Bwriadu byw yn yr eiddo yn ystod 'cyfnod y grant': fel arfer mae hyn yn 5 mlynedd, ond gall fod yn fyrrach mewn rhai amgylchiadau, fel os oes gan yr ymgeisydd salwch terfynol.

**Pwysig**
Talwch sylw i delerau ac amodau'r grant, sy'n amrywio o un Awdurdod Lleol i'r llall. Er mwyn osgoi costau annisgwyl neu bridiannau tir ar eich eiddo, gwiriwch wrth wneud cais beth sy'n digwydd os:

- Bydd tenant yn gadael o fewn cyfnod y grant (fel arfer 5 mlynedd)
- Bydd y tenant yn marw neu'n gadael yr eiddo ac nid yw'r eiddo'n cael ei ailosod i denant anabl arall
- Bydd y dyfarniad grant dros swm penodol ac mae'r landlord yn gwerthu'r eiddo o fewn nifer penodol o flynyddoedd

Cofiwch hefyd nad yw gwaith nad yw'n hanfodol, fel cyd-fynd â phatrwm/addurn neu adnewyddu ystafell gyfan, wedi'i gynnwys yn y Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Mae gwefan eich Awdurdod Lleol yn lle da i ddechrau darganfod sut i ddechrau cais am Grant Cyfleusterau Anabl neu i ofyn cwestiwn am amodau grant.
Er enghraifft:
**GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL | CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

## CYMORTH ARIANNOL

Gwybodaeth bellach am opsiynau cymorth ariannol ar gyfer gwneud addasiadau i eiddo.

**Addasiadau bach yn eich cartref**

Efallai y bydd angen addasiadau llai ar eich tenant hefyd sy'n is na throthwy Grant Cyfleusterau i'r Anabl (h.y. o dan £1000). Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau fel rheiliau llaw, cefnogaeth goleuadau a seddi cawod.

Mae gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol gynllun ar wahân ar gyfer gwaith sy'n costio llai na £1000.

**Er enghraifft:**
Cynllun Diogelwch Gartref a Galluogi Cyngor Sir Casnewydd

Weithiau gall grwpiau eiriolaeth ddarparu grantiau'n uniongyrchol i bobl anabl sydd angen cymhorthion ac addasiadau yn eu cartref. Yn aml, sefydliadau yw'r rhain sy'n canolbwyntio ar helpu grŵp penodol o bobl anabl, fel pobl iau neu'r rhai o gefndiroedd Duon a lleiafrifoedd ethnig.

**Er enghraifft:**
Annibyniaeth gartref – grantiau i'r rhai sydd mewn angen ariannol

## Gwasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru

Os yw eich tenant dros 60 oed ac angen addasiadau bach i'w helpu i gadw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref, efallai gall eich asiantaeth Gofal a Thrwsio lleol helpu. Gallant osod addasiadau bach o dan y rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym.

Gallwch ddod o hyd i'ch Asiantaeth Gofal a Thrwsio lleol yma

### *Beth sy'n cael ei ystyried yn 'rhesymol' o ran addasiadau?*

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid wneud addasiadau 'rhesymol' ar gyfer tenantiaid anabl, er mwyn eu galluogi i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel.

Bydd yr hyn sy'n 'rhesymol' yn dibynnu ar y sefyllfa, a'r eiddo.

Nid oes rhaid i landlordiaid wneud newidiadau i eiddo na fyddai'n fforddiadwy neu'n anymarferol. Nid oes gofyn iddynt wneud newidiadau strwythurol i eiddo, na newid unrhyw fannau a rennir / cymunedol.

Os yn bosibl, dylai'r tenant gytuno â'r landlord neu'r asiant ar yr hyn a ystyrir yn rhesymol ar gyfer eu sefyllfa.

Mae gan y dudalen hon gan Gyngor ar Bopeth ragor o wybodaeth.

## MATHAU ERAILL O GYMORTH

Yn ogystal â chymorth ariannol ar gyfer addasiadau ac addasiadau rhesymol, mae mathau eraill o gymorth i'ch tywys chi a'ch tenantiaid drwy'r broses o wneud cartrefi'n addas ar gyfer amrywiaeth o wahanol anghenion.

### Grwpiau Eiriolaeth

Sefydliadau sy'n cefnogi pobl â chyflwr penodol neu fath o gyflwr ac yn eiriol dros fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

Gall rhai grwpiau fod yn gysylltiedig â math penodol o anabledd. Mae enghreifftiau'n cynnwys RNIB (colli golwg), RNID (colli clyw), Mind (iechyd meddwl), a Chymdeithas Alzheimer (dementia).

Mae gan lawer ohonynt wefannau llawn gwybodaeth a/neu linell gymorth ffôn ar gyfer cyngor a gwybodaeth. Mae nifer fach ohonyn nhw'n darparu grantiau'n uniongyrchol ar gyfer addasiadau, ond mae llawer mwy a all eich cynghori ar ble i chwilio am gyllid grant a rhoi cymorth i chi gyda gwneud cais.

Dyma enghraifft o wefan yr RNIB am addasu cartref ar gyfer person sydd wedi colli golwg.

### Gweithwyr gofal iechyd

Yn aml, gweithwyr gofal iechyd fydd yn gyfrifol am gyfeirio pobl ar gyfer addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol. Nhw yw'r arbenigwyr yn eu proffesiwn a gallant ddarparu gwybodaeth a chyngor ar ochr dechnegol hygyrchedd tai.

Mae Therapyddion Galwedigaethol, Swyddogion Adsefydlu a Ffisiotherapyddion yn rhai o'r gweithwyr proffesiynol allweddol a all gynnig gwybodaeth am offer neu gymorth ymarferol a allai fod fwyaf effeithiol wrth helpu person i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â'i anabledd.

Gofynnwch i'ch tenant(iaid) a ydyn nhw'n gweithio gydag unrhyw un o'r gweithwyr proffesiynol hyn.

Dyma enghraifft o sut gall Therapyddion Galwedigaethol eich cefnogi i wneud newidiadau i'ch cartref

age Cymru

**Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Ynghyd â phum partner lleol, mae'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i'r rhai dros 50 oed, waeth beth fo deiliadaeth eu cartref: Gallai hyn gynnwys gwybodaeth a chyngor, cefnogaeth i'r rhai sy'n profi unigrwydd, cefnogaeth ymarferol gyda siopa a neges bwyd, help gyda defnyddio'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron.**



# IECHYD MEDDWL A NIWROAMRYWIAETH

Ar y dudalen hon, fe welwch wasanaethau ychwanegol sy'n cynnig cefnogaeth i denantiaid sy'n anabl oherwydd angen iechyd meddwl, niwroamrywiaeth, neu anabledd dysgu.

Yn ogystal ag anableddau corfforol, mae rhesymau eraill pam y gallai tenant fod ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys iechyd meddwl, niwroamrywiaeth (e.e. Awtistiaeth) ac amhariadau gwybyddol / dysgu.
Gall helpu tenant ag anghenion o'r fath fod yn arbennig o heriol i landlordiaid.
Amlygodd adroddiad gan Tai Cymunedol Cymru:
'‘Mae 45% o landlordiaid yn teimlo nad oes 'byth' ddigon o gefnogaeth a gwybodaeth i landlordiaid gefnogi tenantiaid â phroblemau iechyd meddwl.’

## Gwasanaethau allweddol a all helpu

E-ganllaw Iechyd Meddwl Tai Pawb.
Mae gan y canllaw hwn restr gynhwysfawr o wasanaethau ar gyfer cymorth iechyd meddwl yng Nghymru.
Lawrlwythwch y canllaw yma

Scope
Elusen sy'n cynnig amrywiaeth o gyngor a chymorth i bobl anabl ledled y Deyrnas Unedig.
Dysgwch ragor yma

Mirus
Yn darparu gwasanaethau i oedolion anabl i'w helpu i fyw'n annibynnol a chymryd rhan lawn mewn bywyd a chymdeithas.
Dysgwch ragor yma

Rhentu Doeth CymruCyfeiriadur Awdurdodau Lleol Cymru Gyfan.
Adnodd sy'n rhestru gwasanaethau ledled Cymru i gefnogi landlordiaid a thenantiaid drwy gydol y denantiaeth.
rhentudoeth.llyw.cymru

## Tips gwych i landlordiaid



Creu amgylchedd anfeirniadol lle mae tenantiaid yn teimlo'n ddiogel yn datgelu pryderon. Defnyddio iaith glir a thosturiol wrth drafod rhent, materion eiddo, neu les.




Addasu eich dull o gyfathrebu i gyd-fynd ag anghenion eich tenantiaid. Efallai y bydd tenant sy'n profi heriau iechyd meddwl yn teimlo’n well yn cael cyswllt dros y ffôn yn hytrach nag ymweliad â'i dŷ.



Os oes rhywbeth difrifol yn digwydd sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth, fel pryder ynghylch diogelu, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod i bwy i'w riportio a sut — gallai hyn gynnwys y cyngor lleol neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

## GWASANAETHAU CYFFREDINOL A CHYFEIRIO YMLAEN

Cliciwch ar unrhyw un o'r eiconau a'r delweddau isod am gymorth a chyfeiriadau pellach i'ch cynorthwyo i wneud newidiadau addas i gefnogi tenantiaid hŷn ac anabl.

---

Care & Repair
Gofal a Thrwsio

age Cymru

propertymark

NRLA

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

SHELTER CYMRU

SCOPE

RNIB
See differently

RN
I:D